WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

2009-10

Tachwedd 2010

**Awdur: John Herniman** **Cyf: 552A2010**

# Llythyr Archwilio Blynyddol 2009-10

# **Awdurdodau Heddlu Cymru**

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Crynodeb** | 4 |
| **Llythyr Manwl** | |
| **Gwnaed defnydd priodol o adnoddau'r Pwyllgor ym mhob ffordd berthnasol, a rhoddwyd cyfrif amdanynt, ond mae angen mynd i'r afael â'r materion a amlinellwyd yn yr adroddiad hwn yn ystod y flwyddyn gyfredol** | 6 |
| Paratowyd cyfrifon y Pwyllgor ar gyfer 2009-10 yn briodol ac roeddent yn gywir ym mhob ffordd berthnasol, fodd bynnag, mae angen datrys problemau o ran pa weithgareddau y rhoddir cyfrif amdanynt gan Awdurdodau Heddlu Cymru a'r cyrff cyfansoddol | 6 |
| Nid yw amgylchedd rheoli mewnol diwygiedig y Pwyllgor wedi'i brofi hyd yma i sicrhau ei fod yn addas at y diben | 9 |
| **Mae gan y Pwyllgor drefniadau corfforaethol priodol ar waith i gefnogi'r defnydd effeithiol o adnoddau. Fodd bynnag, mae angen datblygu trefniadau monitro perfformiad ymhellach** | 10 |
| Roedd gan y Pwyllgor drefniadau priodol yn 2009-10 i'w helpu i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau | 10 |
| Mae angen datblygu trefniadau rheoli perfformiad y Pwyllgor ymhellach | 11 |
| **Atodiadau** | |
| Casgliad ar drefniadau Awdurdodau Heddlu Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2010 ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau | 12 |
| Meini prawf ar gyfer asesu trefniadau'r Pwyllgor yn ystod 2009-10 i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau | 13 |
| Ffi archwilio | 14 |

**Statws yr adroddiad hwn**

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Awdurdodau Heddlu Cymru fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid yw Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) yn atebol i unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog, na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd parti perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

# Crynodeb

1. Mae'r Llythyr Archwilio Blynyddol (y Llythyr) hwn i aelodau Awdurdodau Heddlu Cymru (y Pwyllgor) yn crynhoi'r casgliadau o'm harchwiliad ar gyfer 2009-10. Mae'n nodi i aelodau'r Pwyllgor unrhyw faterion o bwys sy'n codi o'm harchwiliad, ynghyd â'm sylwadau ar faterion cyfredol eraill. Nodwyd y gwaith y cyflwynir adroddiad arno yn y Llythyr yn y Strategaeth Archwilio y cytunwyd arni ar gyfer 2009-10. Lluniwyd y Llythyr hwn gan John Herniman ar ran yr archwilydd penodedig.
2. Gwneir nifer o gyfeiriadau yn y Llythyr hwn at ganllawiau a dogfennaeth a gyhoeddwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol, yn cynnwys y Cod Ymarfer Archwilio (y Cod). Mae hwn yn cyfeirio at y Datganiad o Gyfrifoldebau Archwilwyr a Chyrff a Archwilir sy'n crynhoi cyfrifoldebau allweddol archwilwyr. Cynhaliwyd fy archwiliad yn unol â'r egwyddorion a nodwyd yn y datganiad hwnnw. Dylid ystyried fy sylwadau am ganlyniadau fy archwiliad yng nghyd-destun y cefndir mwy ffurfiol hwnnw.
3. Cynlluniaf yr archwiliad ar sail risg, ac mae fy ngwaith archwilio wedi canolbwyntio ar eich risgiau ariannol a gweithredol sylweddol sy'n berthnasol i'm cyfrifoldebau archwilio. Mae'r gwaith archwilio wedi'i strwythuro o amgylch elfennau allweddol fy nghyfrifoldebau fel y'u nodir yn y Cod.
4. Daeth fy ngwaith archwilio ariannol i'r casgliad bod adnoddau'r Pwyllgor, ym mhob ffordd berthnasol, wedi cael eu defnyddio'n briodol ac y rhoddwyd cyfrif amdanynt yn briodol, ond mae angen mynd i'r afael â'r materion a amlinellwyd yn yr adroddiad hwn yn ystod y flwyddyn gyfredol:
    - paratowyd cyfrifon y Pwyllgor ar gyfer 2009-10 yn briodol ac roeddent yn gywir ym mhob ffordd berthnasol, fodd bynnag, mae angen datrys problemau o ran pa weithgareddau y rhoddir cyfrif amdanynt gan Awdurdodau Heddlu Cymru a'r cyrff cyfansoddol; ac
    - nid yw amgylchedd rheoli mewnol diwygiedig y Pwyllgor wedi'i brofi hyd yma i sicrhau ei fod yn addas at y diben.
5. Mae gan y Pwyllgor drefniadau corfforaethol priodol ar waith i gefnogi'r defnydd effeithiol o adnoddau. Fodd bynnag, mae angen datblygu trefniadau monitro perfformiad ymhellach:
    - roedd gan y Pwyllgor drefniadau priodol yn 2009-10 i'w helpu i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau; ac
    - mae angen datblygu trefniadau rheoli perfformiad y Pwyllgor ymhellach.
6. Cytunwyd ar y Llythyr hwn gydag uwch swyddogion. Caiff y Llythyr ei gyflwyno i'r Is-bwyllgor Archwilio ar 23 Tachwedd 2010 a rhoddir copi i bob aelod o'r Pwyllgor.

7. Fy nod yw rhoi archwiliad o safon uchel sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol ac ymarferol ac sy'n ategu agenda'r Pwyllgor ei hun. Rwyf yn cydnabod pa mor werthfawr yw eich cydweithrediad a'ch cymorth er mwyn cyrraedd y nod hwn a hoffwn ddiolch i chi am y cymorth a'r cydweithrediad a roddwyd yn ystod yr archwiliad.

John Herniman
Ar gyfer ac ar ran yr archwilydd penodedig

Dyddiad: Tachwedd 2010

## Gwnaed defnydd priodol o adnoddau'r Pwyllgor ym mhob ffordd berthnasol, a rhoddwyd cyfrif amdanynt, ond mae angen mynd i'r afael â'r materion a amlinellwyd yn yr adroddiad hwn yn ystod y flwyddyn gyfredol

8. Mae'r datganiadau ariannol yn ffordd hanfodol i'r Pwyllgor roi cyfrif am y modd y mae'n gwarchod yr adnoddau sydd ar gael iddo a'i berfformiad ariannol wrth ddefnyddio'r adnoddau hynny.
9. Fel archwilydd allanol y Pwyllgor, mae'n ofynnol i mi archwilio'r datganiadau ariannol a chyflwyno adroddiad archwilydd sy'n cynnwys barn ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun teg o sefyllfa ariannol y Pwyllgor ar ddiwedd y flwyddyn.

### Paratowyd cyfrifon y Pwyllgor ar gyfer 2009-10 yn briodol ac roeddent yn gywir ym mhob ffordd berthnasol, fodd bynnag, mae angen datrys problemau o ran pa weithgareddau y rhoddir cyfrif amdanynt gan Awdurdodau Heddlu Cymru a'r cyrff cyfansoddol

10. Cafodd datganiadau ariannol drafft y Pwyllgor eu paratoi erbyn 30 Mehefin 2010 a'u cymeradwyo cyn 30 Medi 2010, yn unol â gofynion Rheoliad Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2010.
11. Mae'n ofynnol i mi o dan Safon Archwilio Ryngwladol (ISA) 260 gyflwyno adroddiad ar faterion sy'n codi o'm gwaith i'r 'rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu' (yr Is-bwyllgor Archwilio) cyn i mi roi fy marn archwilio ar y cyfrifon.
12. Cyflwynwyd adroddiad ar y materion hyn i'r Is-bwyllgor Archwilio ar 28 Medi 2010. Nodir y materion allweddol yn Arddangosyn 1.

**Arddangosyn 1: Gofynion adrodd ISA 260**

| Gofyniad adrodd | Ymateb yr Archwilydd |
|---|---|
| Safbwyntiau ynglŷn â'r agweddau ansoddol ar arferion cyfrifyddu ac adroddiadau ariannol yr endid | Mae'r agweddau ansoddol ar arferion cyfrifyddu'r Pwyllgor o safon dderbyniol, ond ceir nifer o faterion y mae angen i Awdurdodau Heddlu Cymru a'r awdurdodau cyfansoddol fynd i'r afael â hwy cyn cwblhau datganiadau ariannol 2010-11. Mae'r rhain yn bwysig i sicrhau y caiff holl incwm a gwariant Awdurdodau Heddlu Cymru ei nodi yn ei gyfrifon; bod yr awdurdodau cyfansoddol yn rhoi cyfrif yn briodol am eu cyfran o drafodion a balansau Awdurdodau Heddlu Cymru; ac y gwneir gwelliannau i reolaethau mewnol Awdurdodau Heddlu Cymru. |

| Gofyniad adrodd | Ymateb yr Archwilydd |
|---|---|
| Addasiadau disgwyliedig i adroddiad yr archwilydd | Dim addasiadau i adroddiad yr archwilydd. |
| Camddatganiadau nas addaswyd | Ni chafwyd unrhyw gamddatganiadau nas cywirwyd. |
| Gwendidau perthnasol yn y systemau cyfrifyddu a rheolaeth fewnol a nodwyd yn ystod yr archwiliad | Fel mewn blynyddoedd blaenorol, nid ydym wedi gallu dibynnu ar y rheolaethau mewnol sy'n ymwneud â sut y cadarnheir bod incwm a gwariant yn gymwys i'w cynnwys yng nghyfrifon Awdurdodau Heddlu Cymru a chynhaliwyd gwaith archwilio ychwanegol i gael y sicrwydd angenrheidiol. |
| Materion y mae'n ofynnol iddynt, o dan safonau archwilio eraill, gael eu cyfleu i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu | Ni chododd unrhyw faterion |
| Unrhyw faterion llywodraethu eraill sy'n ymwneud â'r archwiliad | Ni chododd unrhyw faterion |

13. Ar 30 Medi 2010 rhoddais fy marn ar gyfrifon y Pwyllgor. Deuthum i'r casgliad fod y cyfrifon yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Pwyllgor ar 31 Mawrth 2010 ac o'i incwm a'i wariant, ei enillion a'i golledion a'i lifau arian parod am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.

14. Bydd gofynion newydd yn dod i rym yn fuan ar gyfer cyflwyno adroddiadau ariannol o dan y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Rydym yn parhau i weithio gyda'r Pwyllgor i baratoi ar gyfer y newidiadau hyn a'r addasiadau eraill sy'n ofynnol o dan y safonau hyn.

### Nid yw cyfansoddiad y Pwyllgor yn nodi'n glir pa weithgareddau y dylai Awdurdodau Heddlu Cymru roi cyfrif amdanynt

15. Wrth roi ein barn ar y datganiadau ariannol, mae'n rhaid i ni fod yn fodlon bod y cyfrifon yn cynnwys yr holl incwm a'r gwariant sy'n ymwneud â gweithgareddau Awdurdodau Heddlu Cymru. Yr hyn sy'n llywio penderfyniadau o ran pa weithgareddau sy'n cael eu cynnwys yn y datganiadau ariannol yw cyfansoddiad Awdurdodau Heddlu Cymru ei hun. Mae'r cyfansoddiad presennol yn nodi y bydd Awdurdodau Heddlu Cymru yn rhoi cyfrif am y gweithgareddau sydd wedi'u cynnwys yng Nghynllun Plismona Cenedlaethol Cymru.

16. Yn ystod 2009-10 cafwyd rhywfaint o ddryswch o fewn awdurdodau cyfansoddol o ran p'un a ddylid cynnwys gweithgareddau penodol o fewn cyfrifon Awdurdodau Heddlu Cymru. Er enghraifft, nid yw elfen Cangen Arbennig prosiect Uned Eithafiaeth a Gwrthderfysgaeth Cymru (WECTU) wedi'i chynnwys er gwaethaf y ffaith mai Dirprwy Brif Gwnstabl Awdurdodau Heddlu Cymru sydd â chyfrifoldeb gweithredol amdano. Mae elfennau eraill o brosiect WECTU, megis yr Uned Cudd-wybodaeth Gwrthderfysgaeth (CTIU), wedi'u cynnwys yn y

cyfrifon. Nid yw'r cyfansoddiad yn ddigon manwl i ganiatáu i ni ddod i'r casgliad y dylai'r gweithgareddau hyn gael eu cynnwys mewn gwirionedd yn natganiadau ariannol Awdurdodau Heddlu Cymru.

17. Fodd bynnag, er mwyn datrys y sefyllfa a darparu sail ar gyfer gofynion cyfrifyddu Awdurdodau Heddlu Cymru yn y dyfodol, dylid cytuno ar gyfansoddiad manylach sy'n nodi'n benodol pa weithgareddau a gaiff eu cynnwys o dan Awdurdodau Heddlu Cymru y gellir ei ddefnyddio wedyn i gefnogi'r gwaith o lunio'r datganiadau ariannol.

18. Wrth lunio'r cyfansoddiad diwygiedig, mae angen ystyried y cwestiynau canlynol:

- Sut y bydd Awdurdodau Heddlu Cymru yn derbyn arian grant yn y dyfodol?
- A ddylai fod gan Awdurdodau Heddlu Cymru ei gyfrif banc ei hun?
- Pa weithgareddau penodol sy'n rhan o gylch gwaith Awdurdodau Heddlu Cymru ac felly y dylid eu cynnwys yn natganiadau ariannol Awdurdodau Heddlu Cymru?
- A ddylai Awdurdodau Heddlu Cymru gadw ei gronfeydd wrth gefn ei hun?
- A ddylid dosrannu costau uniongyrchol megis y defnydd o safleoedd, amser prif swyddogion ac ati i Awdurdodau Heddlu Cymru?
- Pa gyfrannau cymharol o incwm, gwariant, asedau a rhwymedigaethau y dylid rhoi cyfrif amdanynt ym mhob awdurdod cyfansoddol?

19. Mae angen i aelodau Awdurdodau Heddlu Cymru ddod i gytundeb â phob awdurdod cyfansoddol o ran y cwestiynau a ofynnir ym mharagraff 18 a gwneud diwygiadau priodol i'r cyfansoddiad.

### Hyd yma nid yw cyrff cyfansoddol wedi cytuno sut y dylid rhoi cyfrif am drafodion Awdurdodau Heddlu Cymru yn eu datganiadau ariannol eu hunain

20. Mae angen i bob heddlu cyfansoddol roi cyfrif am ei gyfran o asedau, rhwymedigaethau, incwm a gwariant Awdurdodau Heddlu Cymru o fewn ei ddatganiadau ariannol ei hun.

21. Ar hyn o bryd mae datganiadau ariannol yr heddluoedd cyfansoddol yn adlewyrchu eu cyfraniadau eu hunain i weithgareddau Awdurdodau Heddlu Cymru. Dylai datganiadau ariannol yr heddluoedd cyfansoddol hefyd adlewyrchu'r gyfran berthnasol o incwm a gwariant Awdurdodau Heddlu Cymru sy'n ymwneud â'r prosiectau penodol a ariennir gan grantiau a gydgysylltir gan Awdurdodau Heddlu Cymru. Er gwaethaf cyfarfod rhwng Swyddfa Archwilio Cymru a chyfrifwyr o'r pedwar heddlu ym mis Mai 2010, nid ydym wedi gallu cytuno sut y rhoddir cyfrif am incwm a gwariant sy'n ymwneud â'r prosiectau penodol yng nghyfrifon yr heddluoedd cyfansoddol.

22. Ar hyn o bryd, mae'r heddlu sy'n arwain prosiect penodol yn rhoi cyfrif am yr holl incwm a'r gwariant ar gyfer y prosiect hwnnw yn ei ddatganiadau ariannol, ac nid yw unrhyw gyfran o'r incwm na'r gwariant yn cael ei chynnwys yng nghyfrifon y tri heddlu arall. Mae'n angenrheidiol cynnwys cyfran o incwm a gwariant o fewn cyfrifon cyrff cyfansoddol sy'n gysylltiedig â'r budd cymharol a ddaw i'r heddlu o'r prosiect er mwyn cydymffurfio ag arferion cyfrifyddu priodol.

23. Hefyd, dylid dosrannu'r holl asedau a'r rhwymedigaethau a gynhwysir yng nghyfrifon Awdurdodau Heddlu Cymru rhwng datganiadau ariannol y cyrff cyfansoddol. Fel y cyfryw, dylid rhannu'r £575,000 ar gyfer cerbydau rhwng cyfrifon y pedwar awdurdod heddlu yng Nghymru gan ddefnyddio sail briodol. Ni wnaed hyn yn 2009-10.

24. Fodd bynnag, ni fu'n bosibl, hyd yma, i fesur lefel y gor-ddatgan neu'r tan-ddatgan o fewn cyfrifon pob awdurdod. Fodd bynnag, rydym yn fodlon nad yw'r gwahaniaethau o natur berthnasol ac ni fyddant yn effeithio ar y farn a roddir gennym ar ddatganiadau ariannol y pedwar awdurdod heddlu yng Nghymru.

25. Rydym wedi cyflwyno adroddiadau unigol ar y materion hyn i bob awdurdod heddlu yng Nghymru ac mae angen i'r pedwar heddlu gytuno ar ddull gweithredu i gywiro'r driniaeth ar gyfer cyfrifon y flwyddyn nesaf.

## Nid yw amgylchedd rheoli mewnol diwygiedig y Pwyllgor wedi'i brofi hyd yma i sicrhau ei fod yn addas at y diben

26. Rydym yn asesu a yw'r Pwyllgor wedi rhoi trefniadau digonol ar waith i fonitro, rheoli a chyflwyno adroddiad ar ei sefyllfa ariannol, yn ogystal â datblygu amgylchedd rheolaeth fewnol cadarn. Roedd ein harchwiliad yn seiliedig ar yr adolygiad o'r meysydd canlynol:

- systemau ariannol pwysig;
- pennu cyllideb fantoledig; a
- monitro a chyflwyno adroddiadau ariannol.

27. Mae ein hadolygiad o systemau ariannol y Pwyllgor wedi cynnwys dogfennu'r systemau ariannol pwysig a, lle y bo angen, naill ai profi'r ffordd y gweithredir rheolaethau mewnol neu gynnal profion archwilio sylweddol ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r Pwyllgor wedi defnyddio staff a systemau cyllid Awdurdod Heddlu Dyfed-Powys i gynhyrchu ei ddatganiadau ariannol ar gyfer 2009-10.

28. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, nid ydym wedi gallu dibynnu ar y rheolaethau mewnol sy'n ymwneud â sut y cadarnheir bod incwm a gwariant yn gymwys i'w cynnwys yng nghyfrifon Awdurdodau Heddlu Cymru. Fel y cyfryw, rydym wedi cynnal profion ychwanegol ar ddiwedd y flwyddyn er mwyn cael y sicrwydd sydd ei angen. Mae'r broses hon wedi nodi rhai gwendidau mewn perthynas â rhywfaint o'r ddogfennaeth ategol a ddarparwyd, a chaiff hyn ei drafod a'i adrodd i swyddogion yn unigol.

29. Ar gyfer 2010-11, trosglwyddwyd y cyfrifoldeb am gynhyrchu'r datganiadau ariannol i staff cyllid yn Awdurdod Heddlu De Cymru. Bydd hyn yn arwain at nifer o newidiadau i'r amgylchedd rheoli mewnol. Rydym yn ymwybodol y cynhaliwyd adolygiad mewnol gan gyfrifwyr o Awdurdod Heddlu Dyfed Powys ac Awdurdod Heddlu De Cymru i ystyried lefel y ddogfennaeth ategol a ddarperir ar gyfer incwm a gwariant a gyflwynir i gyfrifon Awdurdodau Heddlu Cymru gan yr

awdurdodau cyfansoddol. Ni chyflwynwyd adroddiad ar ganfyddiadau'r adolygiad hwn eto, ond mae'n bwysig y caiff unrhyw broblemau eu hystyried a'u datrys wrth sefydlu'r system reolaeth newydd yn Awdurdod Heddlu De Cymru.

30. Bellach mae'r Pwyllgor, ar y cyd â'r tri heddlu yn ne Cymru, wedi penodi Deloittes fel archwilwyr mewnol, ac yn ddiweddar cytunwyd ar gynllun sy'n nodi'r gwaith archwilio mewnol ar gyfer 2010-11. Bydd archwilio mewnol yn swyddogaeth allweddol o ran adolygu'r trefniadau rheoli mewnol diwygiedig a bydd yn darparu lefel o sicrwydd ar gyfer y Pwyllgor pan fydd angen iddo gymeradwyo ei ddatganiadau llywodraethu yn y dyfodol.

31. Hefyd archwiliodd fy archwilwyr adroddiadau a gweithdrefnau'r gyllideb ac rwy'n fodlon bod trefniadau addas ar waith. Mae'r Pwyllgor wedi cael adroddiadau rheolaidd ar wariant a'r sefyllfa o gymharu â'r gyllideb.

32. Mae'r Adolygiad Cynhwysfawr diweddar o Wariant wedi gosod her sylweddol i holl awdurdodau heddlu Cymru mewn perthynas â sut y maent yn rheoli eu sefyllfa ariannol yn y byrdymor a'r tymor canolig. O ganlyniad bydd y Pwyllgor hefyd yn wynebu pwysau sylweddol i sicrhau enillion effeithlonrwydd yn y gweithgareddau gweithredol a gynhelir ganddynt. Byddaf yn parhau i fonitro sefyllfa ariannol y Pwyllgor yn 2010-11.

## Mae gan y Pwyllgor drefniadau corfforaethol priodol ar waith i gefnogi'r defnydd effeithiol o adnoddau. Fodd bynnag, mae angen datblygu trefniadau monitro perfformiad ymhellach

### Roedd gan y Pwyllgor drefniadau priodol yn 2009-10 i'w helpu i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau

33. Wrth archwilio cyfrifon y Pwyllgor bob blwyddyn, mae'n ofynnol i mi o dan Adran 17(2)(d) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fodloni fy hun ei fod wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau. Adlewyrchir y gofyniad hwn hefyd yn y Cod. Nodir fy nghasgliad ffurfiol ar drefniadau gwerth am arian y Pwyllgor ar gyfer 2009-10 yn Atodiad 1.

34. Mae'r swyddog atebol yn gyfrifol am roi trefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran defnydd y Pwyllgor o adnoddau. At ddibenion fy ngwaith, rwyf wedi gwerthuso trefniadau'r Pwyllgor yn erbyn nifer o gwestiynau. Nodir y dull hwn yn Atodiad 2. Ar gyfer pob cwestiwn, rwyf yn ystyried a oes bylchau yn y trefniadau y disgwylir iddynt fod ar waith, ac arwyddocâd y bylchau hyn.

35. Wrth lunio fy marn ar drefniadau'r Pwyllgor rwyf hefyd wedi dibynnu ar y gwaith a wnaed gan fy staff ym mhob un o Awdurdodau unigol yr Heddlu.
Mae pob un o'r pedwar awdurdod heddlu yng Nghymru wedi cael barn ddiamod ar eu trefniadau ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn eu defnydd o adnoddau.

36. Er bod gan y Pwyllgor rai gwendidau o ran rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol fel yr amlinellwyd ym mharagraffau 26 i 32, deuthum i'r casgliad, ar gyfer 2009-10, fod gan y Pwyllgor drefniadau digon cadarn ar waith er mwyn ategu'r gwaith o gyflawni ei gyfrifoldeb i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau.

## Mae angen datblygu trefniadau rheoli perfformiad y Pwyllgor ymhellach

37. Rydym yn ymwybodol bod Dirprwy Brif Gwnstabl Awdurdodau Heddlu Cymru bellach yn gyfrifol am gynnal adolygiad manwl o weithrediadau Awdurdodau Heddlu Cymru yn y dyfodol. Bydd yr adolygiad hwn yn ystyried yr heriau presennol sy'n wynebu'r gwasanaeth heddlu yn genedlaethol, yn ogystal â newidiadau i drefniadau llywodraethu awdurdodau'r heddlu yn y dyfodol. Caiff cyfansoddiad Awdurdodau Heddlu Cymru a chynllun plismona cenedlaethol Cymru eu diwygio ar ôl cwblhau'r adolygiad hwn, a bydd angen i'r pedwar awdurdod cyfansoddol gytuno ar y newidiadau hyn.

38. Er mwyn cefnogi'r cyfansoddiad diwygiedig a chynllun plismona cenedlaethol Cymru bydd angen i'r Pwyllgor wella'r trefniadau rheoli perfformiad presennol. Bydd hyn yn cynnwys yr angen am fesurau perfformiad a thargedau manwl y cyflwynir adroddiadau rheolaidd arnynt er mwyn dangos cynnydd tuag at yr amcanion o fewn y dogfennau hyn.

Atodiad 1

# Casgliad ar drefniadau Awdurdodau Heddlu Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010 ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau

**Cyfrifoldebau'r Swyddog Atebol**

Mae'r swyddog atebol yn gyfrifol am roi trefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran defnydd y Pwyllgor o adnoddau, ac i sicrhau stiwardiaeth a llywodraethu priodol. Mae'r swyddog atebol hefyd yn gyfrifol am adolygu digonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau hyn yn rheolaidd.

**Cyfrifoldebau'r Archwilydd**

Mae gennyf gyfrifoldeb o dan Adran 17(2) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus Cymru 2004 i ddod i'r casgliad, o'm harchwiliad o gyfrifon blynyddol y Pwyllgor, p'un a wyf yn fodlon o ran bodolaeth y trefniadau a oedd ganddo ar waith yn ystod y flwyddyn i'w helpu i gyflawni ei gyfrifoldeb i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau yn briodol. At ddibenion fy ngwaith yn y maes hwn, rwyf wedi asesu 'trefniadau priodol' yn bennaf fel trefniadau rheoli perfformiad corfforaethol a rheoli ariannol sefydliad, y diffinnir elfennau pwysig ohonynt ym Mharagraff 48 o'r Cod.

Cyflwynaf adroddiad os yw materion o bwys wedi dod i'm sylw sy'n fy atal rhag dod i'r casgliad bod y Pwyllgor wedi gwneud trefniadau priodol o'r fath. Wrth ymgymryd â'm gwaith, nid wyf wedi ystyried a yw’r trefniadau sydd ar waith yn cynrychioli'r holl drefniadau a allai fod ar waith. Nid yw'n ofynnol ychwaith i mi ystyried, ac nid wyf wedi ystyried fel rhan o'r agwedd hon ar fy ngwaith, effeithiolrwydd y trefniadau sydd ar waith ar gyfer sicrhau gwerth am arian yn ystod y flwyddyn a adolygir.

**Casgliad**

Mae'r casgliad canlynol yn seiliedig ar waith a wnaed fel rhan o'm harchwiliad o gyfrifon 2008-09 i gadarnhau, ym mhob ffordd berthnasol, pa drefniadau a oedd ar waith gan y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn i'w helpu i gyflawni ei gyfrifoldeb i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau, ac mae’n gyfyngedig i’r gwaith hwnnw.

Wrth ymgymryd â'm gwaith, nid wyf wedi ystyried a yw’r trefniadau sydd ar waith yn cynrychioli'r holl drefniadau a allai fod ar waith. Nid yw'n ofynnol ychwaith i mi ystyried, ac nid wyf wedi ystyried, effeithiolrwydd y trefniadau sydd ar waith ar gyfer sicrhau gwerth am arian yn ystod y flwyddyn a adolygir.

Ar sail Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Pwyllgor ac o ganlyniad i'r gwaith a gyflawnwyd, fel y disgrifiwyd uchod fel rhan o'm harchwiliad o gyfrifon 2009-10, a'r holl wybodaeth arall yr ystyriais ei bod yn berthnasol, rwy'n fodlon o ran bodolaeth y trefniadau a oedd ar waith gan y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn i ategu'n briodol ei gyfrifoldeb i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau. Yn seiliedig ar y gwaith a gynhaliwyd, ac yn gyfyngedig iddo, rwyf wedi codi materion amrywiol, ac wedi gwneud argymhellion i wella trefniadau'r Pwyllgor. Trafodir ac esbonnir y materion hyn ymhellach yn fy Llythyr Archwilio Blynyddol i'r Pwyllgor.

| | |
|---|---|
| Anthony Barrett | Swyddfa Archwilio Cymru |
| Archwilydd Penodedig | 24 Heol y Gadeirlan |
| Tachwedd 2010 | Caerdydd CF11 9LJ |

## Atodiad 2

# Meini prawf ar gyfer asesu trefniadau'r Pwyllgor yn ystod 2009-10 i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau

| Trefniadau rheoli perfformiad corfforaethol a rheoli ariannol | Cwestiynau ar drefniadau |
|---|---|
| **Pennu amcanion, penderfynu ar bolisïau a gwneud penderfyniadau** | A yw'r Pwyllgor wedi rhoi trefniadau ar waith ar gyfer pennu, adolygu a gweithredu ei amcanion strategol a gweithredol? |
| **Diwallu anghenion defnyddwyr, rhanddeiliaid a'r boblogaeth leol** | A yw'r Pwyllgor wedi sefydlu dulliau o gyfathrebu â'r boblogaeth leol, defnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid eraill yn cynnwys partneriaid, ac a oes trefniadau monitro i sicrhau bod negeseuon allweddol ynglŷn â gwasanaethau yn cael eu hystyried? |
| **Monitro ac adolygu perfformiad** | A yw'r Pwyllgor wedi rhoi trefniadau ar waith ar gyfer monitro perfformiad a chraffu arno, i nodi amrywiannau posibl yn erbyn amcanion, safonau a thargedau strategol, ar gyfer gweithredu lle y bo angen, a chyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor? |
| **Cydymffurfiaeth â pholisïau sefydledig** | A yw'r Pwyllgor wedi rhoi trefniadau ar waith i gynnal system rheolaeth fewnol gadarn, yn cynnwys trefniadau ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau, a pholisïau a gweithdrefnau mewnol? |
| **Risgiau gweithredol ac ariannol** | A yw'r Pwyllgor wedi rhoi trefniadau ar waith i reoli ei risgiau busnes o bwys? |
| **Rheoli adnoddau ariannol ac adnoddau eraill** | A yw'r Pwyllgor wedi rhoi trefniadau ar waith i werthuso a gwella'r gwerth am arian y mae'n ei gyflawni o ran ei ddefnydd o adnoddau? |
| | A yw'r Pwyllgor wedi rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod ei wariant yn cyfateb i'r adnoddau sydd ar gael? |
| | A yw'r Pwyllgor wedi rhoi trefniadau ar waith ar gyfer rheoli a monitro perfformiad yn erbyn cyllidebau, gan gymryd camau adferol lle y bo'n briodol, a chyflwyno adroddiad ar y canlyniadau i uwch reolwyr a'r Pwyllgor? |
| **Safonau ymddygiad priodol ac ati** | A yw'r Pwyllgor wedi rhoi trefniadau ar waith ar gyfer monitro perfformiad a chraffu arno, i nodi amrywiannau posibl yn erbyn amcanion, safonau a thargedau strategol ar gyfer gweithredu a, lle y bo angen, gyflwyno adroddiad i aelodau? |
| | A yw'r Pwyllgor wedi rhoi trefniadau ar waith gyda'r nod o hyrwyddo a sicrhau gonestrwydd a phriodoldeb wrth gynnal ei fusnes? |

## Atodiad 3

# Ffi archwilio

Nododd y Strategaeth Archwilio ar gyfer 2009-10 y ffi archwilio arfaethedig, sef £19,257 (ynghyd â TAW).
Mae'r tabl isod yn nodi fy amcangyfrif diweddaraf o'r ffi wirioneddol ar gyfer 2009-10.

**Dadansoddiad o ffi archwilio arfaethedig a ffi archwilio wirioneddol 2009-10**

| Maes y cod | Ffi arfaethedig 2009-10 (£) | Ffi wirioneddol 2009-10 (£) |
|---|---|---|
| **Cyfanswm** | **19,257** | **19,257** |

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ
Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660
E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk